# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
# Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

# ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

## Gorffennaf 2016

enfusion

# ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
## Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

**Paratowyd ar gyfer**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

enfusion
environmental planning and management for sustainability
Treenwood House
Rowden Lane
Bradford on Avon
BA15 2AU
t: 01225 867112
www.enfusion.co.uk

**CYNNWYS** **TUD**

**1.0 CYFLWYNIAD** **1**
Cefndir ..... 1
Ymgynghoriad ..... 2
Pwrpas a Strwythur yr Adroddiad ..... 2

**2.0 ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (ARhC) A'R CYNLLUN ..... 3**
Y Gofyn am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ..... 3
Arweiniad ac Arfer Da ..... 3

**3.0 ARhC CAM 1: SGRINIO ..... 5**
Sgrinio'r Strategaeth a Ffefrir (2013) ..... 5
Sgrinio'r CDLl Adnau (2015) ..... 6
Sgrinio'r Newidiadau Ffocws (2016) ..... 25
Sgrinio'r Newidiadau Materion sy'n Codi(2017) ..... 27

**4.0 CASGLIADAU'R ARhC ..... 28**
Crynodeb o'r ARhC ..... 28

**ATODIADAU**
**I** Nodweddion Safleoedd Ewrop
**II** Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Phrosiectau

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlaC) ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r strategaeth ar gyfer datblygu a defnydd tir yng Ngwynedd a Môn am y 15 mlynedd nesaf (2011- 2026). Mae'n nodi polisïau i weithredu ar y strategaeth a rhoi arweiniad ar leoliad tai newydd, cyfleon cyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chymunedol.

1.2 Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) [y Rheoliadau Cynefinoedd], mae'r Cynghorau, yn eu rolau fel yr awdurdodau cymwys, wedi cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Comisiynwyd Enfusion Ltd i gynnal yr ARhC ar gyfer y CDLlaC ar ran y ddau Gyngor.

### Cefndir

1.3 Penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd sefydlu Uned Bolisi ar y Cyd yn 2011 i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlaC) ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn. Yn y CDLlaC nodir y strategaeth ar gyfer datblygu a defnydd tir ym Môn a Gwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Nod y CDLlaC yw cyflawni'r isod:

- Arwain y gwaith o ddatblygu tai, manwerthu, cyflogaeth a defnyddiau eraill;
- Cynnwys polisïau a fydd o gymorth i bob Awdurdod Cynllunio Lleol wrth iddynt benderfynu ar geisiadau cynllunio
- Gwarchod ardaloedd i sicrhau y cynhelir a chyfoethogir yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

1.4 Dechreuodd y broses ARhC ar gyfer y CDLl ar y Cyd yn 2013, pan gynhaliwyd sgrinio ARhC i'r Strategaeth a Ffefrir. Cyflwynwyd canfyddiadau'r gwaith hwn yn yr Adroddiad Sgrinio ARhC (Mai 2013). Canfu'r sgrinio bod mwyafrif o Bolisïau'r Strategaeth a Ffefrir yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd, gan nad ydynt o reidrwydd yn cynnig datblygiadau neu gefnogi mathau penodol o ddatblygiad, ond yn nodi meini prawf ar gyfer penderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio.

1.5 Gwnaeth yr adroddiad argymhellion i gryfhau'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisïau penodol i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd. Daeth proses sgrinio ARhC y Strategaeth a Ffefrir i'r casgliad fod potensial ar gyfer effeithiau sylweddol ar y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad â chynlluniau, rhaglenni neu brosiectau eraill. Argymhellodd

cynnal gwaith sgrinio pellach yn ystod cam nesaf y CDLl ar y Cyd (wedi'i Adneuo), a oedd yn darparu polisïau manwl pellach a dyraniadau safle er mwyn caniatáu gwneud asesiad mwy cynhwysfawr o'r effeithiau a sut y gallant effeithio ar safleoedd Ewropeaidd

1.6 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn 2013, symudodd y Cynghorau ymlaen gyda'r gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd Adnau. Yn unol ag argymhellion Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Strategaeth a Ffefrir, cynhaliwyd gwaith sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pellach i ystyried y polisïau a'r datblygiadau a gynigir yn y CDLl ar y Cyd Adnau. Cyflwynwyd canfyddiadau'r gwaith hwn mewn Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Chwefror 2015) a oedd yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r CDLl ar y Cyd Adnau ar ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ym Mawrth 2015. Daeth y sgrinio i'r casgliad nad oedd y CDLl ar y Cyd Adnau yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill. Cynhyrchwyd adroddiad ARhC pellach yn Chwefror 2016 a sgriniodd y Newidiadau Ffocws a wnaethpwyd i'r Cynllun yn dilyn ymgynghoriad ar y CDLL Adnau. Fe wnaeth yr adroddiad hwn gyd-fynd a'r Cynllun Adnau a Newidiadau Ffocws ar eu cyflwyniad i Lywodraeth Cymru.

1.7 Yng Ngorffennaf 2016 cynhyrchwyd Adroddiad Adendwm ARhC oedd yn ystyried diwygiadau arfaethedig i'r CDll yn dilyn ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd ar y Newidiadau Ffocws yn ogystal a gwaith pellach a gafodd ei wneud mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Yn Rhagfyr 2016, ystyriodd Adroddiad Adendwm pellach y Newidiadau Materion sy'n Codi yn ystod archwiliad o'r CDLl. Cyflwynwyd y ddau adroddiad i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses archwiliad.

### Ymgynghoriad a Strwythur yr Adroddiad

1.8 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n gwneud y cynllun / awdurdodau cymwys [Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd] ymgynghori gyda'r corff statudol priodol o ran cadwraeth natur [Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)]. Derbyniwyd sylwadau gan CNC ar yr Adroddiad Sgrinio ArhC a gyhoeddwyd ym Mai 2013 ac ar yr Adroddiad ArhC a fu gyda'r CDLl Adnau a ymgynghorwyd arni yn Chwefror 2015. Mae'r rhain ac unrhyw gyngor arall a ddarparwyd wedi cael eu dwyn ymlaen yn y gwaith ailadroddol ARhC a ddogfennir yn yr Adroddiad hwn.

### Pwrpas a Strwythur yr Adroddiad

1.8 Pwrpas yr Adroddiad yw dod gyda'i gilydd y gwaith ARhC sydd wedi ei ymgymryd ac i benderfynu a yw'r polisïau a'r bwriadau a nodir yn y CDLl yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu

brosiectau eraill, ac a oes raid wrth Asesiad Priodol (AP) o gofio bod camau osgoi a lliniaru ar gael. Ar ôl yr adran gyflwyno hon, rhennir yr adroddiad yn dair adran arall:

- **Adran 2** – yma crynhoir y gofyn am ARhC a'r cefndir i'r dewis strategaeth.
- **Adran 3** – yma amlinellir y broses Sgrinio a chanfyddiadau'r asesiad sgrinio ar gyfer y CDLl Adnau, Newidadau Ffocws a Newidiadau Materion sy'n Codi.
- **Adran 4** – yma crynhoir canfyddiadau'r ARhC

## 2.0 ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (ARhC) A'R CYNLLUN

### Y Gofyn am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.1 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio ARhC ar gyfer holl gynlluniau defnydd tir statudol yng Nghymru a Lloegr. Nod proses yr ARhC yw asesu'r effeithiau posib a gyfyd o gynllun yn erbyn amcanion gwarchod unrhyw safle a ddynodwyd am ei bwysigrwydd o ran cadwraeth natur.

2.2 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn trawsosod gofynion y Gyfarwyddeb Ewropeaidd (92/43/EEC) ar y Gyfarwyddeb Gwarchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid [y Gyfarwyddeb Cynefinoedd] sydd â'r nod o warchod cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth natur Ewropeaidd. Mae'r gyfarwyddeb yn sefydlu rhwydwaith o safleoedd o bwys rhyngwladol a ddynodwyd am eu statws ecolegol. Cyfeirir at y rhain fel safleoedd Natura 2000 neu safleoedd Ewropeaidd ac maent yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (AoeddCA) ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AoeddGA) a ddynodir dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd (2009/147/EC) ar y gyfarwyddeb gwarchod adar gwyllt [Y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt]. At hyn, mae cyfarwyddyd y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru safleoedd Ramsar (sy'n cefnogi cynefinoedd gwlyptir o bwys rhyngwladol ac a restrir dan y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol [Confensiwn Ramsar]) yn y broses ARhC yn unol â gofynion y Rheoliadau.

2.3 Mae'r broses ARhC yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus a dylid cyflwyno tystiolaeth fel bod modd pennu a fyddai effeithiau cynllun defnydd tir, wrth ei ystyried yn gyfunol ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill yn erbyn amcanion cadwraeth ACA, AGA a / neu safle Ramsar (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel safleoedd Ewropeaidd); yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle hwnnw. Os nad oes sicrwydd ynghylch effeithiau, dylid cymryd bod modd cael effaith andwyol.

### Arweiniad ac Arfer Da

2.4 Ceir arweiniad ar gyfer ARhC 'Arfarnu Cynlluniau Datblygu yng Nghymru dan Ddarpariaethau'r Rheoliadau Cynefinoedd' yn Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (LlCC, Medi 2009). Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd wedi cynhyrchu cyfarwyddyd drafft 'The Appraisal of Plans under the Habitats Directive' (D. Tyldesley and Associates, 2012) sy'n cadw mewn cof ddatblygiadau wrth arfer ARhC.

2.5 Seilir y dulliau a ddefnyddir ar gyfer yr ARhC hwn ar y cyfarwyddyd Cymreig ffurfiol sydd ar gael ar hyn o bryd ac ar arfer newydd, sy'n argymell y dylid gweithredu'r ARhC mewn tri phrif gyfnod – a amlinellir yn Nhabl 1. Yn yr adroddiad hwn amlinellir y dull a'r canfyddiadau ar

gyfer cyfnod 1 y broses ArhC iteraidd – Sgrinio'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo.

| **Tabl 1**<br>**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Cyfnodau Allweddol** | |
|---|---|
| **Cyfnod 1** | |
| **Sgrinio ar gyfer effaith sylweddol debygol** | ▪ Adnabod safleoedd rhyngwladol yn ardal y cynllun / strategaeth yn yr ardal chwilio y cytunwyd arni gyda Chorff Statudol Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)<br>▪ Edrych ar amcanion cadwraeth y nodwedd(ion) o ddiddordeb (lle maent ar gael)<br>▪ Adolygu polisïau a bwriadau 'r cynllun ac ystyried llwybrau ac effeithiau posib ar safleoedd Ewropeaidd (pwysigrwydd, hyd, lleoliad, maint)<br>▪ Edrych ar gynlluniau a rhaglenni eraill a allai gyfrannu at effeithiau 'cyfunol' |
| | ▪ *Os nad oes effeithiau'n debygol – cofnodwch dim effaith sylweddol (gan gymryd cyngor gan CCGC fel bo'r angen).*<br>▪ *Os credir y bydd effeithiau'n debygol neu os oes ansicrwydd – mae'r egwyddor ragofalus yn berthnasol – mynd i cam* ***2*** |
| **Cyfnod 2** | |
| **Asesiad Priodol** | ▪ Cwblhau gwaith cwmpasu ychwanegol gan gynnwys casglu rhagor o wybodaeth am safleoedd, fel bo raid, er mwyn gwerthuso effaith yn wyneb amcanion cadwraeth.<br>▪ Cytuno gyda CCGC ynghylch cwmpawd a dull yr Asesiad Priodol<br>▪ Ystyried sut y bydd y cynllun, 'yn gyfunol' â chynlluniau a rhaglenni eraill, yn rhyngweithio pan weithredir arnynt (Yr Asesiad Priodol)<br>▪ Ystyried sut mae modd osgoi effaith ar gyfanrwydd safle trwy newid cynlluniau ac ystyried dulliau eraill<br>▪ Datblygu camau lliniaru (gan gynnwys amserlen a pheirianwaith)<br>▪ Rhoi gwybod am ganlyniad yr Asesiad Priodol gan gynnwys camau lliniaru, ymgynghori gyda CCGC a'r rhanddeiliaid [cyhoeddus] ehangach fel bo'r angen<br>▪ Os na fydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd - mynd heb gyfeirio ymhellach at Reoliadau Cynefinoedd |
| | ▪ *Os oes effeithiau neu ansicrwydd ar ôl ystyried dulliau eraill a datblygu camau lliniaru – mynd i cam* ***3*** |
| **Cyfnod 3** | |
| **Trefniadaethau lle pery effaith sylweddol ar gyfanrwydd safle rhyngwladol** | ▪ Ystyried atebion eraill, eu tynnu o'r cynllun neu eu newid<br>▪ Ystyried a oes effaith ar rywogaethau / cynefinoedd blaenoriaeth<br>▪ Adnabod 'rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig – economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, iechyd dynol, diogelwch y cyhoedd<br>▪ Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru<br>▪ Datblygu a sicrhau camau cydadferol |

## 3.0 ARhC CYFNOD 1: SGRINIO

3.1 Fel a nodir yn Adran 2, Tabl 1, mae'r ARhC yn nodweddiadol yn cynnwys nifer o gyfnodau. Yn yr Adran hon hwn, nodir ein dull gweithredu a'n canfyddiadau ar gyfer Cyfnod 1, Sgrinio ARhC i'r CDLl ar y Cyd. Nod y cyfnod sgrinio yw asesu, yn fras, a yw'r polisïau a'r bwriadau a nodir yn y Cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle(oedd) Ewropeaidd, ac yn wyneb camau osgoi a lliniaru sydd ar gael, a oes raid wrth Asesiad Priodol (AP)

***Sgrinio'r Strategaeth a Ffefrir (2013)***

3.2 Cynhaliwyd sgrinio o'r Strategaeth a Ffefrir yn 2013, a chyflwynwyd y canfyddiadau yn yr Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Mai 2013). Canfu'r asesiad sgrinio bod y mwyafrif o Bolisïau'r Strategaeth a Ffefrir yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd. Roedd nifer o resymau am hyn, gan gynnwys: nid yw'r rhan fwyaf o'r polisïau o reidrwydd yn cynnig datblygu, ond yn hytrach yn cefnogi rhai mathau o ddatblygiad ac yn llunio meini prawf ar gyfer penderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio; mae nifer o'r polisïau yn cynnwys mesurau diogelu sy'n ceisio gwarchod bioamrywiaeth, neu'r angen i unrhyw gais datblygu gynnal ARhC; a'r mesurau lliniaru a ddarperir gan Bolisi Strategol PS14 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) – sy'n ceisio rheoli datblygu er mwyn cadw, a lle bo modd, gwella'r amgylchedd naturiol trwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach.

3.3 Gwnaethpwyd argymhellion i gryfhau'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisïau penodol (Polisïau Strategol PS6, PS7 a PS16) i sicrhau nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Polisi Strategol PS6 (Ceisiadau am Brosiectau Seilwaith Mawr) - mae potensial i'r polisi gael ei gryfhau drwy ei gwneud yn ofynnol yn benodol cynnal ARhC lefel prosiect gydag unrhyw gais ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.
- Polisi Strategol PS7 (Datblygiad Cysylltiedig â Niwclear yn yr Wylfa) - argymhellir ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gais ar gyfer Datblygiad Cysylltiedig â Niwclear yn yr Wylfa gynnal ARhC lefel prosiect. Dylid hysbysu'r ARhC lefel prosiect gan ganfyddiadau a chasgliadau'r ARhC: Adroddiad Safle i'r Wylfa[1] yn ogystal â'r ARhC i GDLl Ynys Môn a Gwynedd.
- Polisi Strategol PS16 (Technoleg Ynni Adnewyddadwy) - i gryfhau'r mesurau lliniaru a gynhwysir yn y polisi, argymhellir diwygio pwynt 2 fel a ganlyn:

[1] Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Adroddiad Safle ar gyfer yr Wylfa.EN-6: Drafft Diwygiedig Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear.

2. *''sicrhau nad yw gosodiadau, yn unol â SP14, yn unigol neu gyda'i gilydd yn peryglu amcanion dynodiadau gwarchod natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.'*

3.4 Nododd y sgrinio bod y potensial i Bolisïau Strategol PS3, PS8, PS11 a PS22 gael yr effeithiau canlynol ar safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd:

- llygredd atmosfferig, a allai ostwng ansawdd yr aer;
- lefelau aflonyddwch cynyddol - gweithgareddau hamdden, llygredd sŵn a golau;
- lefelau uwch o ddŵr wyneb ffo, a allai ostwng ansawdd y dŵr; a
- chymryd tir, a allai arwain at golli a darnio cynefinoedd.

3.5 Daeth y sgrinio i'r casgliad bod gan Strategaeth a Ffefrir y CDLl ar y Cyd y potensial i gael effeithiau sylweddol ar y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd, naill ai ar ei phen ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau, rhaglenni neu brosiectau eraill. Nododd y bydd cam nesaf y CDLl ar y Cyd (wedi'i Adneuo) yn darparu polisïau manwl pellach a dyraniadau safleoedd a fydd yn caniatáu asesiad mwy cynhwysfawr o'r effeithiau a sut y gallant effeithio ar safleoedd Ewropeaidd yn ogystal ag ystyriaeth fanylach o fesurau lliniaru. Argymhellodd bod gwaith sgrinio pellach yn cael ei wneud i'r CDLl ar y Cyd unwaith y bydd Polisïau Adneuo a Dyrannu Safleoedd ar gael. Bydd y gwaith sgrinio pellach hwn yn gallu dod i'r casgliad gyda mwy o sicrwydd os oes angen Asesiad Priodol Cam 2 ar gyfer y CDLl ar y Cyd.

3.6 Roedd canfyddiadau'r Sgrinio ARhC ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir yn destun i ymgynghoriad â CNC.

**Sgrinio ARhC o'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo (2015)**

3.7 Fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Sgrinio ARhC (Mai 2013) roedd yn angenrheidiol ymgymryd â rhagor o waith sgrinio er mwyn penderfynu p'un oedd yr CDLl ar y Cyd yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd a p'un a oes angen Asesiad Priodol Cam 2.

***Dull Gweithredu Gwaith Sgrinio ARhC: Tasgau Allweddol***

3.8 Mae modd rhannu'r broses Sgrinio'n bedwar prif faes tasg. Ceir mwy o fanylion am y tasgau isod.

- **Tasg 1: Adnabod safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion** – Dyma le caiff safleoedd Ewropeaidd y mae'n bosib yr effeithir arnynt, y tu mewn i Ardal y Cynllun a'r tu allan iddi, gael eu hadnabod. Unwaith y cânt eu hadnabod, deall natur y safle Ewropeaidd a'r rhesymau am ei ddynodiad, cesglir gwybodaeth am y ffactorau allweddol a ganlyn: nodweddion cymhwyso; amcanion cadwraeth; a gwendidau (pwysau a thueddiadau).
- **Tasg 2: Adolygu a sgrinio'r Cynllun Datblygu er mwyn nodi effeithiau posib a thebygol ar safleoedd Ewropeaidd** – Bydd hyn yn golygu edrych ar y cynlluniau: nodau ac amcanion; ei hyd a'r cyfnod gweithredu arbennig;

ac unrhyw ddyraniadau datblygu hysbys gan gynnwys cwantwm y datblygiad


- **Tasg 3: Ystyried cynlluniau a phrosiectau eraill a all weithredu'n gyfunol**– Bydd hyn yn golygu adnabod unrhyw gynlluniau datblygu, cynlluniau adrannol neu brosiectau sylweddol eraill sy'n cyfarwyddo datblygiad yn y rhanbarth ac a allai, o bosib, gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd a nodir yn Nhasg 1.
- **Tasg 4: Asesiad Sgrinio, cofnodi'r farn, a'r wybodaeth a'r dadansoddiad cefnogi** – Dyma le daw'r wybodaeth a gasglwyd o dasgau 1 i 3 ynghyd er mwyn cefnogi'r farn sgrinio

**Tasg 1: Adnabod safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion**

3.9 Gall cynlluniau a'u polisïau gael goblygiadau gofodol sy'n ymestyn y tu draw i ffiniau bwriadedig y Cynllun. At ddibenion yr ARhC, cydnabyddir nad yw pellter ynddo'i hun yn arweiniad pendant i debygolrwydd neu ddifrifoldeb effaith. Bydd ffactorau megis cyfeiriad y gwynt cryfaf, cyfeiriad llif yr afon, a llif dŵr daear i gyd yn cael effaith ar bellter cymharol o le gall effaith ddigwydd. Golyga hyn y bydd raid o bosib barhau i ystyried, yn rhan o'r broses sgrinio, safleoedd Ewropeaidd sydd cryn bellter o'r polisi / cynllun sy'n cael ei sgrinio.

3.10 O'r herwydd, yn hytrach na dibynnu ar bellter yn unig, peirianwaith mwy effeithiol i ystyried cwmpawd yr ARhC yw defnyddio model 'ffynhonnell – llwybr – derbynnydd' (gweler Ffigwr 1) sy'n canolbwyntio ar a oes llwybr lle gall effeithiau o'r cynllun gael effaith ar amodau amgylcheddol sensitifrwydd / gwendidau a nodwyd mewn safle(oedd) Ewropeaidd.

**Ffigwr 1: Model Ffynhonnell, Llwybr, Derbynnydd**




3.11 Gan ddefnyddio'r dull hwn, cafodd y safleoedd a restrir yn Nhabl 2, sydd y tu mewn i ardal y cynllun a'r tu allan iddi, eu cwmpasu i'r Sgrinio ARhC ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

| **Tabl 2: Safle Ewropeaidd y tu mewn i gwmpawd ARhC** |
|---|
| **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** |

| | |
|---|---|
| ▪ ACA Abermenai i Dwyni Aberffraw<br>▪ ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd<br>▪ ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn<br>▪ ACA Arfordir Môn: Morfa heli<br>▪ ACA Corsydd Môn<br>▪ ACA y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd<br>▪ ACA Cadair Idris<br>▪ ACA Bae Cemlyn<br>▪ ACA Coedydd Aber<br>▪ ACA Cors Fochno<br>▪ ACA Corsydd Eifionydd<br>▪ ACA Glantraeth | ▪ ACA Glynllifon<br>▪ ACA Pen y Gogarth<br>▪ ACA Arfordir Ynys Cybi<br>▪ ACA Corsydd Llŷn<br>▪ ACA Llŷn a'r Sarnau<br>▪ ACA Llyn Dinam<br>▪ ACA Coedydd Derw Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod<br>▪ ACA y Fenai a Bae Conwy<br>▪ ACA Migneint - Arenig - Dduallt<br>▪ ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn<br>▪ ACA Preseli<br>▪ ACA Rhinog<br>▪ ACA Afon Dyfrdwy a LlynTegid<br>▪ ACA Clogwyni Llŷn<br>▪ ACA Eryri |
| **Ardaloedd Gwarchod Arbennig** | |
| ▪ AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli<br>▪ AGA y Berwyn<br>▪ AGA Craig yr Aderyn<br>▪ AGA Aber Afon Dyfi<br>▪ AGA Elenydd - Mallaen<br>▪ AGA Arfordir Ynys Cybi | ▪ AGA Traeth Lafan, Bae Conwy<br>▪ AGA Bae Lerpwl<br>▪ AGA Migneint - Arenig - Dduallt<br>▪ AGA Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal<br>▪ AGA Ynys Seiriol<br>▪ AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynys y Moelrhoniaid |
| **Safleoedd Ramsar** | |
| ▪ Ramsar Corsydd Môn a Llŷn<br>▪ Ramsar Cors Fochno ac Afon Dyfi | ▪ Ramsar Llyn Idwal<br>▪ Ramsar Llyn Tegid |

3.12 Cyflwynir nodweddion, yn cynnwys amcanion a gwendidau cadwraeth ar gyfer pob un o'r safleoedd Ewropeaidd yn Atodiad I.

**Tasg 2: Sgrinio CDLlaC wedi'i Adneuo ac Adnabod Effeithiau Tebygol**

***Adolygu Polisi Adneuo***

3.13 Rhoes y matrics sgrinio ystyriaeth i'r posibilrwydd y byddai'r polisïau yn y Dewis Ddogfen Strategol yn cael effaith sylweddol debygol ar y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd.

3.14 Nododd y matrics sgrinio bod y rhan fwyaf o bolisïau yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd ar ben eu hunain gan eu bod un ai'n ceisio gwarchod a gwella asedau diwylliannol / treftadaeth a'r amgylchedd naturiol neu'n llunio meini prawf dylunio ar

gyfer bwriadau datblygu. Ar gyfer rhai polisïau, y gred oedd y byddai effeithiau posib yn cael eu hasesu'n fwy priodol yn erbyn Dewis Polisïau Strategol eraill sy'n rhoi mwy o fanylion ar faint a lleoliad y datblygiad arfaethedig. Ar gyfer polisïau eraill, y gred oedd y byddai'n fwy priodol rhoi sylw i effeithiau posib ar lefel y prosiect unwaith yr oedd union natur, maint a lleoliad y datblygiad yn hysbys.

3.15 Mae nifer o bolisïau nad ydynt o reidrwydd yn bwriadu datblygu ond, yn hytrach, gefnogi mathau penodol o ddatblygiadau ac maent yn llunio meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Er nad yw'r polisïau'n cynnig datblygu eu hunain, mae gan rai o'r mathau datblygu a gefnogir y potensial o gael effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd, megis prosiectau sy'n ymwneud ag isadeiledd mawr, ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear. Mae nifer o'r polisïau'n cynnwys camau diogelu sy'n ceisio gwarchod bioamrywiaeth neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fwriad i ddatblygu gynnal ARhC. Bydd hyn, ynghyd â'r camau lliniaru a ddarperir gan Bolisi PS14 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) - sy'n ceisio rheoli datblygu er mwyn gwarchod, a lle'n bosib, wella'r amgylchedd naturiol trwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach – yn gymorth i leihau i'r eithaf effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd.

3.16 Ymgorfforwyd yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Mai 2013) a chyngor dilynol gan CNC ym mholisïau'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisïau Strategol PS8 (Ceisiadau am Brosiectau Seilwaith Mawr) a PS9 (Datblygiad yn Gysylltiedig â Wylfa Newydd) – dylid diwygio Maen Prawf 7 fel a ganlyn:
  7. Rhaid i unrhyw gais ar gyfer datblygiad, gan gynnwys yr holl ddatblygiad atodol ac wedi'i gymell, gynnwys Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).
- Polisi Strategol PS7 (Technoleg Ynni Adnewyddadwy) dylid diwygio Maen Prawf ii fel a ganlyn:
  ii. sicrhau nad yw unrhyw osodiadau, yn unol â PS16, yn unigol neu gyda'i gilydd yn peryglu amcanion dynodiadau gwarchod natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.'

3.17 Nododd y matrics sgrinio bod ansicrwydd o ran y potensial o effeithiau sylweddol tebygol ar ben eu hunain ac ar y cyd i'r polisïau canlynol.

| **Tabl 3: Polisïau Adneuo a nodir fel rhai ag effeithiau a allai arwain at LSE ar ben eu hunain neu mewn cyfuniad** | |
|---|---|
| **Polisi Strategol PS13:** Darpariaeth Dai | Mae'r polisi yn darparu ar gyfer 7,184 o gartrefi newydd rhwng 2011 a 2026. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei gwrdd trwy nodi cyflenwad am tua 7,902 o gartrefi newydd i alluogi lwfans llithriad o 10%. Mae'r Cynllun yn nodi gofyniad am 2,604 o unedau tai rhwng 2011 a 2018 a 5,298 o unedau tai rhwng 2018 a 2026. |

| Tabl 3: Polisïau Adneuo a nodir fel rhai ag effeithiau a allai arwain at LSE ar ben eu hunain neu mewn cyfuniad | |
|---|---|
| **Polisi Strategol PS15:** Strategaeth Aneddiadau | Mae'r polisi yn amlinellu lle y dylai datblygiadau gael eu dosbarthu yn amodol ar y capasiti amgylcheddol, cymdeithasol a seilwaith i ymdopi â datblygiadau. |
| **Polisi TAI14:** Tai yn y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol | Mae'r polisi yn nodi dyraniadau safleoedd yng nghanolfan isranbarthol Bangor a'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol sef Amlwch, Caergybi, Llangefni, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog a Phwllheli. |
| **Polisi TAI15:** Tai yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol | Mae'r polisi yn nodi dyraniadau safleoedd yng Nghanolfannau Gwasanaethau Lleol Biwmares, Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Pentraeth, Rhosneigr, Y Fali, Abermaw, Abersoch, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, a Thywyn. |

***Sgrinio Dyraniadau Safleoedd Preswyl***

3.18 Mae'r polisïau yn cynnig cwantwm neu leoliad eang ar gyfer datblygiadau sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd Ewropeaidd. Mae arwyddocâd yr effeithiau hyn yn dibynnu ar union leoliad a maint y datblygiad, y llwybrau amgylcheddol a sensitifrwydd derbynyddion. Felly cynhaliwyd sgrinio o'r dyraniadau preswyl arfaethedig. Canfu sgrinio manwl o'r dyraniadau safle preswyl posibl na fydd datblygiadau yn y rhan fwyaf o safleoedd yn cael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd o gofio maint bach y datblygiadau a phellter arfaethedig o'r safleoedd Ewropeaidd. Yn achos y rhai sydd â'r potensial am effeithiau sylweddol, ystyriwyd bod lliniaru addas wedi'i ddarparu trwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo ac sydd ar gael ar lefel prosiect, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol o ganlyniad i ddatblygiad ar ben ei hun ar safleoedd unigol nac ar y cyd ym mhob anheddiad unigol.

3.19 Mae lliniaru Polisi a gynhwysir yn y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cynnwys y canlynol:

- Polisi PS4 - trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd: mae'r polisi yn cefnogi datblygiadau sy'n annog dulliau trafnidiaeth amgen i'r car preifat, ac yn ceisio newid ymddygiad teithio.
- Polisi TRA1 - Datblygiadau rhwydwaith trafnidiaeth: mae'r polisi yn ceisio lleihau effeithiau datblygiadau trafnidiaeth (gan gynnwys yn achos gwelliannau i'r seilwaith presennol) ar yr amgylchedd naturiol
- Polisi PS5 - Datblygu cynaliadwy: mae'r polisi yn ceisio diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei thirweddau ac asedau bioamrywiaeth.
- Polisi PS6 – Lleddfu ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd: Mae'r polisi yn ceisio sicrhau nad yw gallu tirweddau, amgylcheddau a rhywogaethau i addasu i effeithiau niweidiol

newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ddatblygiad. Mae'r polisi hefyd yn gwarchod yr amgylchedd dŵr, sy'n cefnogi'n anuniongyrchol yr asedau bioamrywiaeth.

- Polisi PCYFF2 – Dylunio a Llunio Lle: Mae'r polisi yn sicrhau fod datblygiad yn ystyried yr amgylchedd naturiol wrth greu lleoedd deniadol a chynaliadwy.
- Polisi PCYFF3 – Dylunio a Thirlunio: mae'r polisi yn sicrhau bod datblygiadau'n parchu, cadw ac ategu unrhyw nodweddion naturiol positif sy'n bodoli eisoes, ac yn gwneud iawn am unrhyw golled o seilwaith gwyrdd. Mae'r polisi hefyd yn cyfyngu ar gyflwyno unrhyw rywogaethau ymledol anfrodorol.
- Polisi PCYFF4 – Rheoli Carbon: mae'r polisi'n ceisio sicrhau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd a all gyfrannu at wella ansawdd aer a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Polisi PCYFF5 – Cadwraeth Dŵr: mae'r polisi'n ceisio sicrhau mesurau cadwraeth dŵr mewn datblygiadau newydd a all gefnogi asedau bioamrywiaeth yn anuniongyrchol.
- Polisi ARNA1 – Ardal Rheoli Newid Arfordirol: mae'r polisi yn ceisio cyfyngu ar ddatblygiadau o fewn Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol, a sicrhau nad yw bioamrywiaeth yn cael ei effeithio wrth ail-leoli anheddau presennol o fewn yr ardaloedd hyn.
- Polisi PS11 – Yr Economi Ymwelwyr: mae'r polisi yn ceisio gwarchod yr amgylchedd naturiol wrth ddatblygu'r diwydiant twristiaeth.
- Polisi PS16 – Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol: mae'r polisi yn ceisio diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir, gan gynnwys; diogelu cynefinoedd, rhywogaethau, daeareg, hanes a thirweddau; gwarchod safleoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; a gwella rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol.
- Polisi AMG2 – Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i gymeriad y dirwedd leol: mae'r polisi yn ceisio sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar nodweddion o bwysigrwydd gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol neu ddiwylliannol.
- Polisi AMG3 – Amddiffyn yr Arfordir: mae'r polisi yn sicrhau nad yw datblygiadau mewn ardaloedd arfordirol yn effeithio'n andwyol ar fuddiannau ansawdd dŵr neu fioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd ACA ac AGA o ganlyniad i leoliad, graddfa, ffurf, edrychiad, deunyddiau, sŵn, gollyngiadau neu gynnydd traffig.
- Polisi AMG4 – Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol: mae'r polisi'n ceisio gwarchod asedau bioamrywiaeth pwysig rhag cael eu heffeithio'n andwyol yn sgil datblygiadau newydd.
- Polisi AMG5 – Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol: mae'r polisi yn ceisio diogelu bioamrywiaeth gwerthfawr yn lleol rhag effeithiau andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol unrhyw ddatblygiadau newydd
- Polisi PS18 – Rheoli Gwastraff: mae'r polisi yn ceisio hybu agwedd gynaliadwy tuag at reoli gwastraff, wedi ei seilio ar yr hierarchaeth wastraff o atal ac ailddefnyddio, ailgylchu, adennill ac yna

gwaredu, tra'n cymryd i ystyriaeth gymeriad unigryw'r ardal, gan gynnwys y cysylltiadau trafnidiaeth a natur wledig.

3.20 O ystyried canfyddiadau'r sgrinio dyrannu safleoedd, ystyrir nad oes yr un o'r polisïau a nodir yn Nhabl 3 yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar eu pennau eu hunain.

**Tasg 3: Ystyried y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn gyffredinol a gyda chynlluniau a rhaglenni eraill**

3.21 Ni wnaeth sgrinio polisïau unigol CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo a dyraniadau safleoedd nodi'r posibilrwydd o effeithiau sylweddol tebygol ar safle Ewropeaidd unigol. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd sicrhau na fydd y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae gan dai, cyflogaeth a datblygu seilwaith y potensial i gynhyrchu ystod o effeithiau amgylcheddol a all, (yn dibynnu ar eu natur, maint, lleoliad a hyd), gael effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd. Ceir crynodeb o'r math o effeithiau a all godi o'r mathau hyn o ddatblygiad yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Tai, Cyflogaeth a Datblygiad Seilwaith: Crynodeb o Effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd**

| Effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd | Mathau o Effaith |
|---|---|
| **Darnio a cholli cynefinoedd (a rhywogaethau)** | ▪ Cymryd tir yn uniongyrchol, cael gwared ar goridorau cysylltu / gwyrdd / cynefin gefnogol, newidiadau i batrymau gwaddod (afonydd a lleoliadau arfordirol)<br>▪ Cyflwyno rhywogaethau ymledol (ysglyfaethu)) |
| **Aflonyddu** | ▪ Mwy o weithgareddau hamdden (cynnydd yn y boblogaeth)<br>▪ Llygredd sŵn a golau (o ddatblygiad a chynnydd mewn traffig) |
| **Newidiadau i gyfundrefn hydrolegol/ lefelau dŵr** | ▪ Lefelau tynnu dŵr yn cynyddu (tai newydd)<br>▪ Mwy o arwynebau anathraidd wyneb caled / dŵr ffo cyflymach<br>▪ Gosod pibellau / cheblau (wyneb & daear)<br>▪ Newid topograffeg |
| **Newidiadau mewn ansawdd dŵr** | ▪ Cynnydd mewn dŵr ffo / llygryddion o arwynebau anathraidd (ffyrdd, ardaloedd adeiledig))<br>▪ Mwy o lygredd aer (ewtroffigedd) (trafnidiaeth, tai)<br>▪ Mwy o ollyngiadau (wedi'u cydsynio) |
| **Newidiadau mewn ansawdd aer** | ▪ Mwy o symudiadau traffig<br>▪ Mwy o allyriadau o adeiladau |

3.22 Canfu'r sgrinio fod y datblygiadau a gynigir yn y dyraniadau safleoedd ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd mewn aneddiadau yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd. Er bod llwybrau posibl ar gyfer effeithiau ar rai safleoedd Ewropeaidd, bydd graddfa fach y datblygu a'r lliniaru arfaethedig a ddarperir drwy bolisïau CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo, ac sydd ar gael ar lefel prosiect, yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol.

3.23 Mae'r polisi yn darparu ar gyfer 7,184 o gartrefi newydd rhwng 2011 a 2026 (Polisi PS13). Bydd y gofyniad hwn yn cael ei gwrdd trwy nodi cyflenwad am tua 7,902 o gartrefi newydd i alluogi lwfans llithriad o 10%. Mae'r Cynllun yn nodi gofyniad i 2,604 o unedau tai rhwng 2011 a 2018 a 5,298 o unedau tai rhwng 2018 a 2026. Dengys y tabl canlynol ddadansoddiad o dwf a dosbarthiad arfaethedig fel a welwyd yn y Cynllun Adnau.

**Tabl 5: Dosbarthiad Twf Tai o fewn Ardal y Cynllun**

| **Math o Aneddiadau** | **Nifer yr Aneddleoedd** | **Canran y Twf** | **Nifer yr Unedau** |
|---|---|---|---|
| Y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol | **8** | **Hyd at 55%** | **4,346** |
| Canolfannau Gwasanaethau Lleol | **20** | **O leiaf 20%** | **1,580** |
| Pentrefi | **87** | **Dim mwy na 25%** | **1,502** |
| Clystyrau | **112** | | **224** |
| Cefn Gwlad Agored | **-** | | **250** |

**Tabl 6: Safle ers Dyddiad Sylfaenol y Cynllun yn 2011 - Ynys Môn (ffigyrau 2014)**

| **Math o Aneddiadau** | **Nifer yr Aneddiadau** | **Unedau Angenrheidiol** | **Unedau a Gwblhawyd** | **Unedau â chaniatâd cynllunio** [1] | **Nifer ychwanegol sydd eu hangen** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfannau Gwasanaethau Trefol | **3** | **2,039** | **141** | **480** | **1,418** |
| Canolfannau Gwasanaethau Lleol | **10** | **790** | **146** | **235** | **409** |
| Pentrefi Gwasanaethau | **3** | **120** | **2** | **54** | **64** |
| Pentrefi | **30** | **616** | **89** | **290** | **237** |
| Clystyrau | **51** | **102** | **39** | **106** | **-43** |

| Math o Aneddiadau | Nifer yr Aneddiadau | Unedau Angenrheidiol | Unedau a Gwblhawyd | Unedau â chaniatâd cynllunio [1] | Nifer ychwanegol sydd eu hangen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Cefn Gwlad Agored | **-** | **150** | **86** | **205** | **-141** |
| CYFANSWM | **97** | **3,817** | **503** | **1,370** | **1,944** |

[1] Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys safleoedd sy'n debygol o gael eu cwblhau o fewn y cyfnod y Cynllun.

**Tabl 7: Safle ers Dyddiad Sylfaenol y Cynllun yn 2011 - Gwynedd (ffigyrau 2014)**

| Math o Aneddiadau | Nifer yr Aneddiadau | Unedau Angenrheidiol | Unedau a Gwblhawyd | Unedau â chaniatâd cynllunio [1] | Nifer ychwanegol sydd eu hangen |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol | **5** | **2,306** | **172** | **740** | **1,394** |
| Canolfannau Gwasanaethau Lleol | **10** | **790** | **89** | **368** | **333** |
| Pentrefi Gwasanaethau | **8** | **320** | **21** | **57** | **242** |
| Pentrefi | **46** | **446** | **144** | **232** | **70** |
| Clystyrau | **61** | **122** | **12** | **35** | **75** |
| Cefn Gwlad Agored | **-** | **100** | **30** | **44** | **26** |
| CYFANSWM | **130** | **4,084** | **468** | **1,476** | **2,140** |

[1] Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys safleoedd sy'n debygol o gael eu cwblhau o fewn y cyfnod y Cynllun

3.24 Mae rhan fwyaf o'r twf (hyd at 55% fel a welir yn y Cynllun Adnau) wedi'i ganoli ym Mangor fel Canolfan Isranbarthol yn ogystal â'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol (Amlwch, Caergybi, Llangefni, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog a Phwllheli). Fel a nodwyd yn y Cynllun Adnau 'roedd disgwyl i o leiaf 20% yn cael ei ganoli yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda dim mwy na 25% yn y pentrefi a chefn gwlad agored.

3.25 Mae'r tablau a nodir uchod yn dangos yn Ebrill 2014 bod cyfanswm o 3,817 o unedau eisoes wedi'u cwblhau neu â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd, sy'n gadael 4,084 o unedau yn weddill i gyflawni'r 7,902 o gartrefi newydd sydd eu hangen yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o tua 371 o gartrefi newydd bob blwyddyn.

3.26 O ran darpariaeth cyflogaeth, noda'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo ym Mhara 7.3.27, "er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer y posibilrwydd o lithriad a hyblygrwydd sbardun economaidd a fyddai'n arwain at fwy o alw am dir cyflogaeth, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer cyfradd defnydd o 6ha o dir cyflogaeth y flwyddyn ". Mae hyn yn cyfateb i 66 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes weddilliol y Cynllun hyd at 2026. Ar y cam hwn, ni wyddys union leoliad a maint y datblygiad cyflogaeth arfaethedig.

3.27 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol ystyried effeithiau'r Cynllun yn gyfunol gydag effeithiau cynlluniau a rhaglenni eraill. Yn Atodiad II ceir crynodeb o bob cynllun, rhaglen a phrosiect, a disgrifir yr effeithiau posib a allai achosi effeithiau cyfunol ar gyfer pob dogfen. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynlluniau a'r rhaglenni a ganlyn:

**Cynlluniau Datblygu**

- Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Mabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu wedi'i Adneuo Cyngor Sir Ddinbych 2006 - 2021 (Mabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022 (Mabwysiadwyd 2013)
- Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (Drafft Adneuo Gorffennaf 2014)
- Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2007-2022 (Mabwysiadwyd Mai Gorffennaf 2011)

**Trafnidiaeth**

- Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Drafft Ymgynghori 2015)
- Cynllun Lleol Trafnidiaeth ar y Cyd Gogledd Cymru (Drafft ar gyfer Ymgynghori Tachwedd 2014)

**Dŵr**

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol Dŵr Cymru (2014)
- Diweddariad Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (Dogfen Ymgynghori, 2015)
- Adolygu Cydsyniadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- Diweddariad Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Dyfrdwy (Dogfen Ymgynghori, 2015)
- Diweddariad Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren (Dogfen Ymgynghori, 2015)
- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2

**Gwastraff a Mwynau**

- Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru Dogfen Graidd Adolygiad 1af (2009)
- Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af (2014)

**Ynni**

- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1 (2011)
- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) (2011)
- Ynni Cymru: Cynllun Pontio Cyflenwi Carbon Isel (2014)
- Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)
- SeaGen, Cynlluniau Ynni'r Llanw, Ynys Môn (2011)
- Gwynt ar y Môr, Gwynt y Môr (2011)
- Fferm Wynt Rhiannon
- Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa B
- Grid Cenedlaethol: Cysylltiadau Gogledd-orllewin Cymru (2013)

**Eraill**

- Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015)
- Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010)
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn (2012-2016)
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013-2020)

**Ansawdd Aer**

3.28 Ystyriodd proses asesu safleoedd posibl y Cyngor yr effeithiau traffig posibl yn sgil datblygiadau ar y dyraniadau posibl o safleoedd; roedd canfyddiadau'r gwaith hwn gan gynnwys y safleoedd posibl eu hunain yn destun i ymgynghoriad gydag unedau trafnidiaeth y ddau Gyngor yn ogystal ag Uned Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses asesu safleoedd posibl, nododd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru bod materion capasiti ar hyn o bryd mewn perthynas â Phont Britannia ar adegau brig. Pont Britannia yw'r unig adran unffrwd o'r Llwybr E22, sy'n Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd.

3.29 Gallai'r datblygiad a gynigir yn y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo o bosibl gynyddu lefelau traffig ar Bont Britannia, sy'n croesi Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Menai ac Bae Conwy. Ar yr adeg hon, nid yw'n sicr p'un a fyddai unrhyw gynnydd mewn traffig yn un sylweddol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig; fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y traffig presennol wedi cael unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd yr aer yn yr ardal gyfagos.[2] Nid yw cyngor Rheoliad 33 ar gyfer yr ACA[3] yn dangos bod y nodweddion

[2] Ansawdd Aer yng Nghymru: Gwefan Fforwm Ansawdd Aer Cymru.
[3] Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Chwefror 2009) Y Fenai a Bae Conwy / Safle Morol Ewropeaidd Afon Menai a Bae Conwy: Cyngor a ddarperir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Gyflawni Rheoliad 33 o Reoliadau Cadwraeth1994 (Cynefinoedd Naturiol ac ati).

cymhwysol yn sensitif i lygredd atmosfferig, a chefnogir hyn gan System Gwybodaeth Llygredd Aer y DU (APIS).

3.30 Mae'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau lliniaru i sicrhau nad yw datblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar draffig, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi PS4 (Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd): Bydd datblygiad yn cael ei leoli i leihau'r angen i deithio. Mae'r polisi yn cefnogi datblygiad sy'n annog dulliau cludiant amgen i'r car preifat, ac yn ceisio newid ymddygiad teithio. Ceisir cael rhwymedigaethau cynllunio neu fecanweithiau priodol eraill ar gyfer datblygiadau ar bob safle datblygu mawr i liniaru eu heffaith ar system drafnidiaeth ardal y Cynllun yn unol â Pholisi Strategol PS2, yn ogystal â hyrwyddo system drafnidiaeth integredig.
- Polisi TRA1 (Datblygiadau rhwydwaith trafnidiaeth): mae'r polisi yn ceisio lleihau effeithiau datblygiadau trafnidiaeth ar yr amgylchedd naturiol (gan gynnwys mewn gwelliannau i'r seilwaith presennol). Yn unol â Pholisi PCYFF1, mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol darparu Asesiad Trafnidiaeth. Pan fo'r Asesiad Trafnidiaeth yn dangos yr angen am Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth, bydd angen i hyn gael ei sicrhau drwy ymrwymiad cynllunio.

3.31 Ystyrir na fydd datblygiad arfaethedig yn y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cael effeithiau sylweddol tebygol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Menai a Bae Conwy naill ai ar ben ei hun neu ar y cyd o ganlyniad i gynyddu llygredd atmosfferig amrediad byr. Nid yw'r ACA yn sensitif i effeithiau llygredd atmosfferig a bydd y lliniaru a ddarperir trwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo ac sydd ar gael ar lefel prosiect yn sicrhau na fydd unrhyw gynnydd a ddaw yn sgil y datblygiad arfaethedig yn sylweddol.

3.32 Mae CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cydnabod petai gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa yn cael ei datblygu, yna byddai'r A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd yn gweld cynnydd sylweddol mewn traffig, gan gynnwys cynnydd yn nifer y cerbydau mawr sy'n defnyddio'r ffordd. Mae gan y datblygiad a gynigir yn y Cynllun ar Ynys Môn y potensial i weithredu'n gyfunol â'r orsaf bŵer niwclear arfaethedig i gynyddu traffig ar hyd yr A5025. Noda'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo nifer o ardaloedd a fydd angen gwelliant sylweddol i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn trafnidiaeth a cherbydau mwy o faint, sy'n cynnwys:

- A5/A5205 (Y Fali);
- A5025 (Llanfachraeth);
- A5025 (Llanfaethlu);
- A5025 (Cefn Coch).

3.33 Mae'r potensial ar gyfer datblygiad niwclear yn yr Wylfa yn cael ei ystyried gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) drwy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6), a oedd yn rhan o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Isadeiledd Ynni. Mae'r NPS ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear yn destun

ARhC ac yn cynnwys adroddiadau manwl ar yr effeithiau posibl y datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ynni niwclear mewn nifer o safleoedd posibl, gan gynnwys Wylfa. Daeth Adroddiad Safle ARhC ar gyfer Wylfa[4] i'r casgliad, "yn seiliedig ar brofiad yr ARhC, barn broffesiynol, a'r cyngor ymgynghorol a dderbyniwyd gan yr Ymgyngoreion Statudol, mae'n rhesymol dod i'r casgliad y gallai'r mesurau a awgrymwyd fod yn ddigonol i osgoi a/neu liniaru'r effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd. Fodd bynnag, dim ond drwy ARhC ar lefel prosiect y gellir canfod effeithiolrwydd y mesurau arfaethedig gydag unrhyw sicrwydd, lle ceir manylion penodol am ddatblygiadau a ffynonellau data sylfaenol. Dim ond ar yr ARhC lefel prosiect y gellir dod i gasgliad gydag unrhyw hyder nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle".

3.34 O ystyried y canfyddiadau'r Adroddiad Safle ARhC ar gyfer Wylfa ac nad oes unrhyw safleoedd Ewropeaidd o fewn 200m o'r A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cael effeithiau sylweddol naill ai ar ben ei hun neu ar y cyd â gorsaf bŵer niwclear newydd yr Wylfa o ganlyniad i gynnydd mewn llygredd atmosfferig amrediad byr.

**Adnoddau Dŵr**

3.35 Mae Dŵr Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol [5] (CRhAD), sy'n nodi pedwar ar hugain o barthau adnoddau dŵr[6] (WRZs) o fewn yr ardal gyflenwi y mae'n gyfrifol amdani. Mae'r ardal CDLl ar y Cyd yn dod o fewn nifer o WRZs a nodir bod dau o'r rhain mewn diffyg, sef WRZs Gogledd Eryri /Ynys Môn a Tywyn/Aberdyfi (NEYM). Dim ond 35 o anheddau newydd a gynigia'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn WRZs Tywyn/Aberdyfi ac ystyrir ei felly nad yw hyn yn debygol o arwain at effeithiau cyfunol sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd o ganlyniad i gynnydd mewn tynnu dŵr, a thrwy hynny lefelau dŵr gostyngol.

3.36 Mae'r WRZ NEYM yn cynnwys y rhan fwyaf o'r datblygiad arfaethedig drwy'r CDLl ar y Cyd, gyda chyfran fechan o'r WRZ hefyd yn dod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r CRhAD Terfynol yn datgan y bydd y diffyg yn WRZ NEYM erbyn 2024 yn cael ei yrru gan gyfuniad o well dealltwriaeth o'r galw a ragwelir a hefyd effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd. Dylid nodi bod y CRhAD terfynol hefyd wedi cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o ddatblygu Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa.

3.37 Er mwyn cynnal y cydbwysedd rhwng galw a chyflenwad yn y parth hwn i 2040 mae'r CRhAD terfynol yn bwriadu gwella lefelau

[4] Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Adroddiad Safle ar gyfer yr Wylfa. EN-6: Drafft Diwygiedig Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear.
[5] Dŵr Cymru (Ebrill 2014) Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2014-2040.
[6] Dŵr Cymru yn diffinio Parthau Adnoddau Dŵr fel, "yr ardal fwyaf lle gall yr holl adnoddau gael eu rhannu".

gollyngiadau a gwneud gwaith effeithlonrwydd dŵr gyda chwsmeriaid. Mae hefyd yn cynnig trosglwyddo dŵr o WTW Cwm Dulyn (yn WRZ Llŷn Harlech) yn 2027/28. Bydd hyn yn defnyddio'r gwarged trwydded tynnu dŵr yng Nghwm Dulyn, sy'n golygu nad oes angen caniatâd ychwanegol.

3.38 Roedd y CRhAD yn destun AAS ac ARhC ac ystyriwyd y canfyddiadau wrth benderfynu ar y datrysiadau a ffefrir ar gyfer yr WRZ. Canfu ARhC [7] o'r CRhAD "nad oes unrhyw lwybrau rhesymol i unrhyw effeithiau ddigwydd, ac o ganlyniad, ni fydd y dewis yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd".

3.39 Bydd unrhyw geisiadau am drwyddedau newydd yn cael eu hasesu gan y CNC drwy'r Adolygiad Cydsyniadau (RoC) i wneud yn siŵr nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchod natur o bwysigrwydd rhyngwladol. Os bydd asesiad o'r cais newydd yn dangos y gallai gael effaith ar safle Ewropeaidd, bydd rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd ddilyn rheolau llym wrth osod terfyn amser ar gyfer y drwydded honno. Mae hyn yn sicrhau nad yw lefelau dŵr mewn safleoedd Ewropeaidd yn disgyn yn is na'r lefelau critigol. Mae cyfrif llawn ar gyfer y gostyngiadau cynaladwyedd sy'n ofynnol gan y broses RoC yn y senarios wedi'u modelu sy'n sail i'r CRhAD terfynol.

3.39 Mae'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cynnwys amrywiaeth o liniaru polisi a fydd yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar lefelau dŵr mewn safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd. Dim ond ceisiadau lle dangosir eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy a ganiateir gan Bolisi Adneuo PS5 (Datblygu Cynaliadwy). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob cais leihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau ac ansawdd dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy; a symud amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon Dŵr Cymru Gorllewin yn eu blaenau.

3.40 Mae Polisi Adnau PCYFF5 (Cadwraeth Dŵr) yn ceisio cael unrhyw geisiadau i ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy lle bo hynny'n ymarferol. Mae hefyd yn ceisio cael unrhyw geisiadau sy'n fwy na 1,000 $m^2$ neu 10 annedd i gael Datganiad Cadwraeth Dŵr. Yn unol â hyn, bydd ceisiadau'n cael eu caniatáu lle dangosir eu bod yn anelu am y safon uchaf posibl o ran effeithlonrwydd dŵr a gweithredu mesurau eraill i wrthsefyll sychder, cynnal llif y dŵr a chynnal neu wella ansawdd y dŵr, gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy (Polisi Adnau PS6 Lleddfu ac Addasu i Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd

3.41 O ystyried canfyddiadau CRhAD Terfynol Dŵr Cymru a'r ARhC sy'n cyd-fynd ag ef, yn ogystal â'r mesurau lliniaru a ddarperir drwy Bolisïau CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo ac sydd ar gael ar lefel prosiect, ystyrir na fydd

[7] ARhC o Ddrafft Diwygiedig Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Rhagfyr 2013.

y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cael effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd o ganlyniad i gynyddu tynnu dŵr, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad.

**Ansawdd Dŵr**

3.42 Mae CNC ar hyn o bryd yn y broses o ddiweddaru cynlluniau rheoli basn afon (Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd) a fydd yn gosod amcanion ar gyfer afonydd, llynnoedd, aberoedd, dyfroedd arfordirol a daear Cymru i gwmpasu'r cyfnod 2015-2021.Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiad arfaethedig yn y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn dod o fewn CRhBA Gorllewin Cymru, yn enwedig Ardaloedd Basn Afon Ynys Môn a Llŷn ac Eryri (RhBA).

3.43 Mae mwyafrif y cyrff dŵr yn nalgylch Ynys Môn wedi'u hasesu gan CNC i fod â statws cyffredinol dda; fodd bynnag, mae hefyd nifer sydd â statws cymedrol. Ers 2009, bu gwelliannau gyda nifer fwy o gyrff dŵr erbyn hyn yn cyrraedd statws da[8]. I'r rhan fwyaf o gyrff dŵr, nid yw'n hysbys ar hyn o bryd pam eu bod yn methu â chyrraedd statws da; Fodd bynnag, mae CNC wedi nodi rhesymau dros nifer ohonynt sy'n cynnwys:

- Nodir cyfoethogi â maetholion, yn enwedig ffosfforws, fel rhywbeth sy'n effeithio ar rai o'r llynnoedd ac un afon ar yr ynys, yn cynnwys Llyn Dinam, Llyn Coron ac Afon Goch Dulas. Mae rheoli tir amaethyddol, a gollyngiadau o drin dŵr gwastraff a thanciau septig yn ffynonellau cyfrannol. Gall taenu gwastraff ar dir hefyd fod yn ffactor, ac mae nifer o unedau amaethyddol dwys ar raddfa fawr ar yr ynys sy'n cael gwared ar wastraff yn y ffordd hon fel mater o drefn.
- Mae gollyngiadau o ddŵr mwyngloddiau sy'n gyfoethog mewn metel asidig o'r mwynglawdd metel segur ym Mynydd Parys yn cael effaith sylweddol ar Afon Goch Amlwch.
- Mae bacteria o drin dŵr gwastraff a thir amaethyddol yn cyflwyno risg i bysgod cregyn ac ansawdd dŵr ymdrochi o amgylch yr arfordir.

3.44 Mae statws y cyrff dŵr yn nalgylch Llŷn ac Eryri yn amrywio'n bennaf o gymedrol i dda, gyda nifer fach â statws gwael. Ers 2009, bu gwelliannau mewn rhai ardaloedd; fodd bynnag, cafwyd dirywiad mewn statws hefyd mewn un neu ddwy ardal[9]. Nid yw'n hysbys pam fod nifer o'r cyrff dŵr yn methu â chyrraedd statws da; fodd bynnag, mae CNC wedi nodi rhesymau ar gyfer nifer o'r cyrff dŵr:

- Mae bacteria o drin dŵr gwastraff yn peri risg y bydd dyfroedd ymdrochi a physgod cregyn yn methu â bodloni safonau ansawdd y CE. Mae gweithio i nodi, ac os oes angen i leihau, effaith addasiadau ffisegol ar gyfer cyflenwad dŵr ac ynni dŵr, ar y gweill

[8] Water Watch Wales. Ar gael ar-lein: http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/
[9] Water Watch Wales. Ar gael ar-lein: http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/

mewn safleoedd, gan gynnwys Cwmystradllyn, Llyn Cwellyn, Llyn Trawsfynydd a Llyn Llydaw.

- Mae mwyngloddiau metel a llechi a adawyd yn segur yn achosi effeithiau i nifer o gyrff dŵr yn yr ardal. Mae gan afonydd yn ardal Blaenau Ffestiniog fetelau uchel a hefyd maent yn profi llaciau gwaddod mewn glaw trwm.
- Nodir asideiddio oherwydd dyddodiad atmosfferig fel problem gan gyrff dŵr ucheldir yn nwyrain yr ardal hon, fel Llynnau Gamallt a Llyn Llagi. Gall asideiddio achosi i fetelau gwenwynig drwytholchi allan o'r pridd a mynd i mewn i gyrsiau dŵr, a all achosi problemau i organebau dyfrol.
- Nodir maetholion o ffynonellau gan gynnwys rheoli tir amaethyddol, llygredd gwasgaredig trefol a gollyngiadau o drin dŵr gwastraff fel problem mewn rhai afonydd a llynnoedd, yn cynnwys Llyn Padarn ac Afon Cegin ger Bangor

3.45 Nid yw Dŵr Cymru wedi gwrthwynebu unrhyw un o'r datblygiadau a gynigir yn y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo; fodd bynnag, maent yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r twf arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol cael gwelliannau i'r gweithiau trin dŵr gwastraff canlynol (WwTW):

- WwTW Treborth (gwasanaeth Bangor a Bethel)
- WwTW Bodedern
- WwTW Cemaes
- WwTW Blaenau Ffestiniog

3.46 Byddai angen i'r gwelliannau hyn gael eu hariannu drwy Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor neu o bosibl ynghynt drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. Mae Polisi ISA1 (Darpariaeth Seilwaith) yn sicrhau mai dim ond lle ceir capasiti isadeiledd digonol y bydd ceisiadau'n cael eu caniatáu, neu lle caiff ei gyflwyno mewn modd amserol. Pan fo cynigion yn creu angen uniongyrchol am seilwaith newydd neu well ac nad yw hwn yn cael ei ddarparu gan gwmni gwasanaeth neu seilwaith, yna rhaid iddo gael ei ariannu gan y cais. Gellir ceisio cael cyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau mewn seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, lle maent yn angenrheidiol i wneud ceisiadau'n dderbyniol.

3.47 Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cynnwys mesurau diogelu polisi addas i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol i WwTWs yn cael eu darparu i wasanaethu'r datblygiadau arfaethedig.

### Aflonyddwch

3.48 Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd o fewn dylanwad y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn sensitif mewn rhyw ffordd i fwy o aflonyddwch, gan gynnwys gweithgareddau hamdden. Mae lefel arwyddocâd y sensitifrwydd hwn felly'n amrywio i bob safle Ewropeaidd, ac mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau.

3.49 Canfu'r sgrinio nad yw datblygiad a gynigir ar y dyraniadau safleoedd yn yr aneddiadau yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd o ganlyniad i fwy o aflonyddwch. Dengys Tabl 6 a 7 bod cyfanswm o 3,817 o unedau eisoes wedi eu cwblhau neu wedi cael caniatâd cynllunio o fewn ardal y Cynllun, sy'n gadael 4,084 o unedau sy'n weddill i gyflawni'r 7,902 o gartrefi newydd sydd eu hangen yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o tua 371 o gartrefi newydd bob blwyddyn.

3.50 Yn 2011, maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru oedd 2.3 o breswylwyr fesul cartref.[10] Gan ddefnyddio'r ffigwr hwn, amcangyfrifir y gallai cyflenwi'r 4,084 o unedau preswyl sydd yn weddill arwain at gynnydd o tua 9,393 o bobl dros yr 11 mlynedd nesaf, sef cynnydd ar gyfartaledd o 853 o bobl y flwyddyn. Yn ystod oes y cynllun sy'n weddill (11 mlynedd) byddai hyn yn cyfateb yn fras i gynnydd o 4,471 o bobl yn Ynys Môn a 4,922 o bobl yng Ngwynedd.

3.51 Mae poblogaeth Ynys Môn oddeutu 69,700[11], felly gallai'r datblygiad arfaethedig gynyddu'r boblogaeth o 6.4%. Mae poblogaeth Gwynedd oddeutu 121,900[12], felly gallai'r datblygiad arfaethedig gynyddu'r boblogaeth o 4%. Fodd bynnag, dylid nodi bod Awdurdod Lleol Gwynedd yn cynnwys ardaloedd mawr sy'n dod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ac sydd felly o fewn ardal y Cynllun ar gyfer CDLl Eryri a fabwysiadwyd (2011).

3.52 Mae'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn canoli'r rhan fwyaf o'r twf (hyd at 55%) ym Mangor fel Canolfan Isranbarthol, yn ogystal â'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol (Amlwch, Caergybi, Llangefni, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog a Phwllheli). Bydd o leiaf 20% yn cael ei ganoli yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda dim mwy na 25% yn y pentrefi a chefn gwlad agored.

3.53 Canfu sgrinio'r dyraniadau preswyl arfaethedig na fyddai'r datblygiadau arfaethedig yn debygol o gynyddu aflonyddwch yn sylweddol a thrwy hynny gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd. O ystyried maint, dosbarthiad a chyflwyniad graddol y datblygiadau arfaethedig, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd safle Ewropeaidd penodol yn gweld cynnydd sylweddol mewn aflonyddwch, yn enwedig gweithgaredd hamdden, yn ystod oes y Cynllun.

3.54 Mae'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn sicrhau mai dim ond lle ceir capasiti isadeiledd digonol y bydd ceisiadau'n cael eu caniatáu, neu lle caiff ei gyflwyno mewn modd amserol. Gellir ceisio cyfraniad

---

[10] Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 - Amcangyfrifon Poblogaeth a Chartrefi ar gyfer Cymru. Ar gael ar-lein: http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/population-and-household-estimates-for-wales/stb-2011-census-wales.html
[11] Cyfrifiad 2011
[12] Ibid.

ariannol i sicrhau gwelliannau mewn seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, lle maent yn angenrheidiol i wneud ceisiadau'n dderbyniol. Lle bo hynny'n briodol, efallai y gofynnir am gyfraniadau tuag at ystod o ddibenion, gan gynnwys hamdden a mannau agored, chwaraeon a chyfleusterau hamdden a/neu gadwraeth natur.

3.55 O gofio maint, dosbarthiad a chyflwyniad graddol datblygiadau arfaethedig yn ogystal â'r lliniaru a ddarperir drwy Bolisïau Adnau, ystyrir na fydd y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd o ganlyniad i fwy o aflonyddwch.

**Colli a Darnio Cynefinoedd**

3.56 Canfu'r sgrinio nad yw datblygiad a gynigir ar y dyraniadau safleoedd yn yr aneddiadau yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd o ganlyniad i golli a darnio cynefinoedd. Mae'r safleoedd wedi'u lleoli o fewn neu'n gyfagos at aneddiadau presennol ac o gofio eu maint, ystyrir ei fod yn annhebygol y bydd hyn yn arwain at golli unrhyw gynefinoedd ategol pwysig nac arwain at golli cysylltedd i rywogaethau symudol a allai gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae'r CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn sicrhau bod unrhyw geisiadau ar gyfer datblygu yn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau ardal y Cynllun, gan gynnwys safleoedd Ewropeaidd a rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir, a diogelu a gwella bioamrywiaeth drwy rwydweithiau isadeiledd gwyrdd/glas. Ystyrir felly na fydd y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn cael effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd o ganlyniad I golli a darnio cynefinoedd.

**Tasg 4: Crynodeb o'r Asesiad Sgrinio**

3.57 Canfu'r asesiad sgrinio nad oedd y CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd ag unrhyw gynlluniau neu brosiectau eraill. Bydd gofynion deddfwriaethol presennol (ar gyfer ARhC lefel prosiect) yn ogystal â'r lliniaru a ddarperir drwy bolisïau CDLl ar y Cyd wedi'i Adneuo ac sydd ar gael ar lefel prosiect yn sicrhau na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Roedd y canfyddiadau hyn yn destun i sylwadau'r ymgynghoriad a chyngor gan CNC a rhanddeiliaid ehangach.

3.58 Ymgorfforodd y Cyngor yr argymhellion sy'n codi drwy'r broses ARhC i'r CDLl ar y Cyd gan gynnwys unrhyw gyngor gan CNC. Argymhellwyd bod gwaith sgrinio pellach yn cael ei wneud i ystyried unrhyw addasiadau arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd yn dilyn yr ymgynghoriad Adneuo.

**Sgrinio'r Newidiadau â Ffocws (2016)**

3.59 Roedd y CDLl ar y Cyd Adnau yn destun Sgrinio ARhC gyda'r canfyddiadau yn llywio datblygiad y Cynllun. Roedd Adroddiad ARhC (Chwefror 2015) yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r CDLl ar y Cyd Adnau ar ymgynghoriad cyhoeddus o 16 Chwefror - 31 Mawrth 2015. Derbyniwyd sylwadau gan CNC ac fe gafodd rhain eu hystyried ac wedi llywio'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd barhaus. O ganlyniad i ymatebion a dderbyniwyd ar y CDLl ar y Cyd Adnau, cynigodd y Cyngor gwneud nifer o Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd yn bwysig bod y newidiadau hyn yn cael eu sgrinio er mwyn penderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd blaenorol a gyflwynwyd yn gynharach yn yr Adran hon.

3.60 Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau yn darparu eglurhad pellach neu'n ceisio sicrhau cysondeb ac felly nid ystyrir eu bod yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd blaenorol a nodir uchod. Mae'r newidiadau allweddol o bwys ar gyfer y broses ARhC yn cael eu hystyried yn fwy manwl isod.

**Tabl 7: Sgrinio ARhC yng nghyswllt Newidiadau â Ffocws Allweddol**

| Newidiadau â Ffocws Allweddol | Sgrinio ARhC |
|---|---|
| Polisi Newydd TAI X | Mae'r polisi'n ceisio rhyddhau tai fesul cam i sicrhau bod cymunedau yn gallu darparu ar gyfer y twf a gynigir. Dylid nodi nad yw'r polisi ei hun yn rhoi manylion o ran nifer/swm neu ddyddiadau ar gyfer datblygu fesul cam. Nid yw'r polisi hwn yn debygol o gael unrhyw effeithiau sylweddol naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. |
| Polisi Newydd yn ymwneud â'r AHNE | Mae'r polisi yn sicrhau bod unrhyw gynigion o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad yr AHNE yn talu sylw i Gynllun Rheoli'r AHNE. Dim potensial o effeithiau sylweddol tebygol naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd. |
| Newidiadau i Bolisi TAI 12 | Mae nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar safle Llandygai wedi cynyddu o 5 i 11. Yn unol â'r canfyddiadau sgrinio blaenorol, credir y bydd y mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau CDLl ar y Cyd Adnau, gan gynnwys Polisi PS16, ac ar gael ar lefel prosiect yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol. |
| Newidiadau i Bolisi TAI 14 | Mae safle T4 ym Mangor wedi cael ei dynnu o'r polisi. Daeth y gwaith sgrinio blaenorol i'r casgliad na fyddai datblygiad ar y safle yn cael unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd; felly, nid yw ei dynnu o'r polisi yn debygol o gael effeithiau sylweddol. |
| Newidiadau i Bolisi TAI 16 | Mae safle T58 wedi cael ei dynnu a safleoedd T70 (Tir gyferbyn â Stad Cremlyn) a T71 (Tir gyferbyn â Stad Rhoslan) bellach wedi eu dyrannu ar gyfer 28 a 12 annedd yn y drefn hon. Nid yw lefel gyffredinol y twf arfaethedig yn yr anheddiad wedi newid ac nid yw |

| | |
|---|---|
| | lleoliad y ddau safle yn sylweddol wahanol i safle T58. Mae'r ddau safle tua 2km o'r safle dynodedig Ewropeaidd agosaf (ACA Afon Menai a Bae Conwy). O ystyried graddfa fechan y datblygiad arfaethedig, y pellter o safleoedd Ewropeaidd a'r lliniaru a ddarperir drwy bolisïau CDLl ar y Cyd Adnau ac sydd ar gael ar lefel prosiect, ystyrir na fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar ei ben ei hun nac ar y cyd. |

3.61 Canfu'r sgrinio ar y newidiadau allweddol uchod nad oeddent yn debygol o gael effaith sylweddol naill ai ar eu pennau eu hunain nac ar y cyd ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Felly, y casgliad oedd nad oedd Newidiadau â Ffocws yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd blaenorol ac nid oedd y CDLl ar y Cyd Adnau yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar ei ben ei hun nac ar y cyd. Dylid nodi, fel rhan o'r broses ARhC barhaus ac ailadroddol ar gyfer yr CDLl ar y Cyd, fod y cynlluniau, rhaglenni, a'r adolygiad prosiectau yn Atodiad II wedi cael eu diweddaru, ac nad yw hyn yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd blaenorol.

**Adroddiad Adendwm ARhC**

3.62 Yng Ngorffennaf 2016 ystyriodd Adroddiad Adendwm ARhC ddiwygiadau arfaethedig i'r CDLl yn dilyn ystyriaeth sylwadau ar y Newidiadau Ffocws yn ogystal a gwaith pellach a ymgymerwyd mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Fe ddangosodd y gwaith sgrinio o'r diwygiadau arfaethedig yn dilyn ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws fod y newidiadau oll yn rai bach ac nad oeddent am effeithio ar ganfyddiadau gwaith ARhC cynharach gan eu bod yn ceisio darparu gwell eglurder neu sicrhau cysondeb. Cafodd yr adroddiad adendwm ei gyflwyno i'r Arolygydd i'w ystyried yng Ngorffennaf 2016 a dylid drallen hwn ochr yn ochr a'r adroddiad terfynol hwn (Dogfen Archwiliad DA019)

**Newidiadau Materion yn Codi (2017)**

3.63 Cynigiwyd nifer o newidiadau i'r CDLl ar y Cyd a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i faterion a ystyriwyd yn ystod Sesiynau Gwrandawiad y CDLl ar y Cyd. Roedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu sgrinio drwy'r broses ARhC i benderfynu a oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ARhC (Chwefror 2016) Darganfu'r sgriniad mai mân oedd yr holl newidiadau arfaethedig ac nad oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb.

3.64 Fe fuodd Atodlen o Newidiadau Materion sy'n Codi (DA.039 a DA.040) yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o 23 Ionawr hyd at 9 Mawrth 2017. Arweiniodd ystyriaeth i'r sylwadau a'r drafodaeth mewn Sesiynau Gwrandawiad a gynhaliwyd ar 26 a 27 Ebrill 2017 at nifer o fân ddiwygiadau i'r Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi. Cyhoeddwyd Atodlen derfynol o Newidiadau Materion sy'n Codi ar 8 Mai 2017. Roedd y diwygiadau i'r Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi yn amodol ar asesiad sgrinio ARhC. Darganfu'r gwaith hwn mai mân oedd yr holl newidiadau ac nad oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Fe gafodd y gwaith hwn ei gyflwyno i'r Arolygydd a dylid ei ddarllen ochr yn ochr a'r adroddiad terfynol hwn (Dogfen Archwiliad DA042).

3.65 Gwnaeth yr Arolygydd un Newid ychwanegol i'r Materion sy'n Codi (INMC). O ystyried natur yr INMC, mae'r Arolygydd yn casglu nad yw'r newid yn tanseilio'r prosesau ARC a gynhaliwyd, ac nid yw'n cyfaddawdu strategaeth y Cynllun chwaith. Sgriniwyd argymhelliad yr Arolygydd er mwyn pennu a oedd y newid yn ddigon sylweddol ac a fyddai'n golygu effeithiau cynaliadwyedd arwyddocaol. Casglwyd na fyddai'r newid yn cael effaith sylweddol ar faterion cynaliadwyedd ac ARhC y Cynllun, yn unol â chanfyddiadau'r Arolygydd.

## 4.0 CASGLIADAU'R ARhC

### Crynodeb yr ARhC

4.1 Yn unol â gofyniad y Rheoliadau Cynefinoedd am sgrinio, cynhaliwyd asesiad i benderfynu tebygolrwydd effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd y tu mewn i ddylanwad y CDLl ar y Cyd.

4.2 Canfu'r asesiad sgrinio o’r Cynllun Adnau ei bod yn annhebygol y byddai mwyafrif y polisïau neu ddyraniadau safle arfaethedig o fewn y CDLl ar y Cyd wedi’i Adneuo yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys: nid yw'r rhan fwyaf o'r polisïau o reidrwydd yn cynnig datblygiad, ond yn hytrach yn cefnogi rhai mathau o ddatblygiad ac yn ffurfio meini prawf ar gyfer penderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio. Mae nifer o'r polisïau hefyd yn cynnwys mesurau diogelu sy'n ceisio gwarchod bioamrywiaeth neu’n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gais datblygu gynnal ARhC. Mae hyn ynghyd â'r lliniaru a ddarperir gan bolisïau’r CDLl ar y Cyd wedi’i Adneuo, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) - sy'n ceisio rheoli datblygiadau er mwyn cadw, a lle bo modd gwella'r amgylchedd naturiol trwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach - yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd.

4.3 Roedd yr asesiad sgrinio hefyd yn ystyried effeithiau posibl y CDLl ar y Cyd wedi’i Adneuo yn ei gyfanrwydd yn ogystal ag ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Daeth i'r casgliad nad oedd y CDLl ar y Cyd wedi’i Adneuo yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill o ganlyniad i lygredd atmosfferig, mwy o aflonyddwch, colli neu ddarnio cynefinoedd, nac ansawdd lefelau dŵr is. Bydd y canfyddiadau hyn yn destun i sylwadau'r ymgynghoriad a chyngor gan CNC a rhanddeiliaid ehangach.

4.4 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y CDLl ar y Cyd Adnau, gwnaeth y Cynghorau nifer o newidiadau i'r Cynllun. Cafodd y newidiadau hyn eu sgrinio a chanfuwyd nad oeddynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r Sgrinio ARhC ar gyfer y CDLl ar y Cyd Adnau.

4.5 Sgrinwyd newidiadau pellach i’r Cynllun o ganlyniad i faterion a ystyriwyd yn ystod y Sesiynau Gwrandawiadau y CDLl er mwyn canfu os byddai rhain yn cael effaith arwyddocaol ar gasgliadau’r gwaith ARhC blaenorol. Darganfu’r sgrinio fod yr holl newidiadau arfaethedig yn rai bach ac nad oeddent yn effeithio ar ganfyddiadau’r gwaith ARhC gan eu bod yn ceisio rhoi eglurder pellach neu sicrhau cysondeb.

4.6 Felly, y casgliad oedd nad yw'r CDLl ar y Cyd yn debyg o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar ei ben ei hun nac ar y cyd.